

# Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Ysgolion

Gorffennaf 2022

Ar 12 Gorffennaf 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 17 Tachwedd 2022.

